Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**4 HYDREF 2017**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Pwnc:** | Cofrestr Risg GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd. Mae yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol yn ogystal a phan mae risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol

3.2 Mae'r holl risgiau wedi cael eu hadolygu a'u diwygio; gyda'r tebygolrwydd o risg, effaith y risg, a'r risg gweddilliol i gyfanswm o 5 o'r risgiau (Risg 1/3/5/8/15) wedi eu newid.

3.3 Awgrymir hefyd dileu y risgiau a ganlyn:

| RHIF RISG | RHANBARTHOL neu LEOL | CRYNODEB | BLAENORIAETH GwE | RISG A NODWYD | TEBYGOLRWYDD RISG | EFFAITH RISG | GWEITHGAREDDAU PRESENNOL / LLINIARU | RISG WEDDILLIOL / RISG GYFFREDINOL | PERCHENNOG RISG | CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | Rh | Safonau | B1 / B4 | Diffyg cefnogaeth arbenigol i UCD ar draws y rhanbarth, ac felly nid oes gan GwE drosolwg o safonau yn y sector pwysig hwn. | C | I | Cytunodd y Bwrdd Rheoli i ddatblygu cynhwysedd GwE i gefnogi UCD. | C | RhG | Adolygu UCD ar draws y rhanbarth i gael bod yn eglur am y disgwyliadau ar draws y rhanbarth. |
| 18 | Rh | Safonau | B1 | Arolygiadau ALl - amrywiad ym mherfformiad yr awdurdodau unigol. | U | U | Yn aros am Arweiniad a Fframwaith Arolygu newydd Estyn. Cynhwysedd isel o fewn yr ALl i gefnogi GwE | C / U | Bwrdd Rheoli | Angen eglurhad ar rôl GwE yn y cyd-destun hwn. |
| 24 | Rh | Busnes | B6 | Camddealltwriaeth o rôl GwE ar adegau yn creu tensiwn gyda'r Undebau Athrawon | U | C / U | Cyfleu yn glir rôl a chyfrifoldebau GwE wrth wella ysgolion gyda'r Undebau Athrawon | C | RhG | Parhau i ymgysylltu â'r undebau athrawon yn rheolaidd |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 27 | Rh | I GYD | B5 | Bod Awdurdod Lleol yn dymuno tynnu'n ôl o'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod (yn ei gyfanrwydd neu o elfennau neilltuol). | I | U | Cynllunio busnes GwE a phrosesau atebolrwydd yn cynnwys mewnbwn lleol sylweddol. Cynlluniau lefel 2 a 3 yn cynnwys darparu yn lleol yn erbyn blaenoriaethau cenedlaethol Penodwyd Arweinydd Craidd i'r cynradd a'r uwchradd ym mhob ALl. Cytundeb Rhyng-Awdurdod i'w adolygu yn ddibynnol ar adolygiad y Model Cenedlaethol. | C/I | RhG | Fframwaith Gwerth am Arian wedi'i lunio i fwydo i benderfyniadau yn y dyfodol. |

3.4 Dilynwyd y matrics risg canlynol wrth bennu statws y risg weddilliol.

| Matrics Risg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | Bron yn sicr | Isel (4) | Canolig (8) | Uchel (12) | Uchel (16) |
| | Tebygol | Isel (3) | Canolig (6) | Canolig (9) | Uchel (12) |
| | Posib | Isel (2) | Isel (4) | Canolig (6) | Canolig (8) |
| | Annhebygol | Isel (1) | Isel (2) | Isel (3) | Isel (4) |
| | | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** | **Hynod uchel** |
| | | **Effaith** | | | |

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor adolygu cynnwys y gofrestr.

4.2 Gofynnir i'r Cydbwyllgor benderfynu a oes unrhyw risgiau yr hoffent eu dwyn i sylw eu Cabinet ayyb.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Mae rheoli risg a rheolaeth ariannol effeithiol yn helpu i fonitro costau ac yn galluogi gwerth am arian.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau o ran Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Mae'r Bwrdd Ymgynghorol a'r Bwrdd Rheoli wedi trafod cynnwys y gofrestr ac wedi diwygio'r risgiau fel bo'n briodol.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Cofrestr Risg GwE

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Byddaf yn cyflwyno unrhwy sylwadau ar lafar yn y cyfarfod.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Credaf fod cofrestr risg drafft GwE ar ffurf safonol ac yn cynnwys gwybodaeth addas. Bydd Adran Gyllid Gwynedd yn darparu cefnogaeth i Reolwr Gyfarwyddwr GwE ynghylch risgiau cyllidol. Cyflwynir sylwadau pellach ar risgiau penodol, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor ar 4/10/2017.